

No.

## **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks and N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy, N.C. Thomas and E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### 145 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 146 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Dr. I.J. Johnson a B. Loveluck-Edwards.

### 147 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

### 148 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 149 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 (CYF) -

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 25 Mai 2023 ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Roedd yr adroddiad atodol yn ymdrin â nifer o feysydd ar y pwnc hwn, gan gynnwys:

No.

- Diweddariad i Aelodau etholedig ar y broses hunanasesu.
- Amlinelliad a diweddariad ar broses asesu cymheiriaid y panel.
- Trosolwg o'r Calendr Perfformiad Blynyddol.
- Dyletswydd newydd ar lywodraeth leol i ymgymryd â darn o hunanfyfrio yn flynyddol ac edrych ar sut y cyflawnodd y Cyngor ei amcanion llesiant ac, yn bwysig, sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau o ran gwerth am arian i helpu i gyflawni'r amcanion hynny.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys myfyrdodau o flwyddyn gyntaf y broses, ac mae'n ymgorffori barn pwyllgorau craffu ac adborth a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol eraill, CLILC a Llywodraeth Cymru (LIC). Comisiynodd y Cyngor archwiliad mewnol hefyd ar y trefniadau hyn a oedd wedi rhoi sicrwydd sylweddol ar y trefniadau a roddwyd ar waith.
- Cyfeiriwyd at y newidiadau i broses herio cymheiriaid y Cyfarwyddwr, yn ogystal ag amserlennu'r sesiynau her ar gyfer pob un o'r pum Cyfarwyddwr gyda'r Prif Weithredwr ac Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion craffu perthnasol ar gyfer Gorffennaf 2023.
- Bu'n rhaid cynnal hunanasesiad yn flynyddol; ond unwaith ym mhob cylch etholiadol 5-mllynedd roedd gofyn i'r Cyngor gomisiynu her cymheiriaid allanol trwy asesiad perfformiad panel, a gynhaliwyd yn annibynnol ar y sefydliad.

Yn dilyn y geirada, dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad atodol yn hynod gynhwysfawr, ac roedd yn dda gweld bod y dull o hunanasesu bellach wedi'i ymgorffori yn y Calendr Perfformiad Blynyddol. Roedd yn dda bod y Cyngor yn cynnwys yr holl Aelodau Etholedig, partneriaid, rheoleiddwyr, dinasgyddion, defnyddwyr gwasanaeth yn y broses hon er mwyn cael eu safbwyntiau ar hyn.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r eitem a gyfeiriwyd a'r adroddiad a atodwyd, Cyngor Bro Morgannwg: Calendr Perfformiad Blynyddol 2023/24.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr eitem a gyfeiriwyd, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

150 YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (ADRODDIAD RICHARD PENN); A CHYSONI TROTHWYON ANRHEGION A LLETYGARWCH I GYD-FYND AG YMAGWEDD CYMRU GYFAN – (CYF) -

Cafodd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Safonau ar 8 Mehefin 2023 ei gyflwyno gan y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd. Gofynnodd yr adroddiad atodol i'r Pwyllgor ystyried, ymhlith pethau eraill, diwygio'r ddau argymhelliad sylweddol, sef y drafft, ymatebion ymgynghori diwygiedig a throthwy Rhoddion Cyngor Bro Morgannwg yn unol â pharagraff 1.5 yr adroddiad fel a ganlyn: Rhoddion, buddion materol neu fanteision – £25.00 neu gyfanswm o

No.

£100.00 dros flwyddyn o un ffynhonnell. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru (roedd y trothwy yn £50.00 i'r Cyngor yn flaenorol).

Yn dilyn y cyfeiriad/adroddiad, holodd y Cynghorydd Carroll a ddylid cyfeirio apêl a wnaed yn dilyn cosb a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ôl at y Pwyllgor hwn neu a ddylai hyn fynd at Bwyllgor ar wahân yn lle hynny er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro. Esboniwyd bod y broses bresennol o amgylch hyn yn cyd-fynd â'r dull a fabwysiadwyd mewn llysoedd sifil a throseddol, lle pe bai mater yn cael ei wrthdroi ar apêl neu os newidiwyd cosb ar apêl, fe'i cyfeirir yn ôl i'r Llys lle rhoddwyd y gosb. O ran hyn yn cael ei glywed gan Bwyllgor ar wahân, ni fyddai hyn yn bosibl oherwydd o dan y fframwaith deddfwriaethol a statudol, y corff sy'n gwneud penderfyniadau yw'r Pwyllgor Safonau yn unig. Pe bai gan unrhyw Aelod o'r Pwyllgor hwnnw wrthdaro buddiannau posibl wrth glywed apêl o'r fath, byddent wrth gwrs yn tynnu'n ôl pe bai angen. Byddai'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd hefyd yn cynghori'r Pwyllgor Safonau i ddilyn argymhellion Panel Dyfarnu Cymru (PDC) neu herio drwy'r broses gyfreithiol. O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd mewn perthynas â'r diffyg pŵer sydd gan y Pwyllgor Safonau i alw tystion, eglurwyd bod y Pwyllgor wedi tynnu sylw at y mater hwn fel rhan o'r ymgynghoriad, a fyddai'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru (LIC).

Cododd y Cynghorydd Haines bryderon am y trothwy cymharol isel ar gyfer Rhoddion ac ati ac y gallai Cyngor neu gorff gwleidyddol orfodi Aelodau Etholedig (a oedd yn atebol i'w hetholwyr lleol yn y pen draw) i ymgymryd â hyfforddiant neu gael eu cosbi (cyfeiriwyd at bryderon tebyg hefyd gan y Cynghorydd Carroll). Esboniwyd bod y cyfeiriad at hyfforddiant yn yr adroddiad yn awgrymu bod hyn yn rhan o ystod ehangach o sancsiynau a ddylai fod ar gael i'r Pwyllgor Safonau (ac i fod yn 'gam o dan' yr angen i gyhoeddi gwaharddiad), gyda'r hyfforddiant yn briodol i dorri safonau honedig (e.e. yn ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb).

Pwysleisiodd y Cynghorydd Franks gyfansoddiad 'annibynnol' y Pwyllgor a'r gefnogaeth a'r cyngor a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd er mwyn ei helpu i gyflawni ei waith yn effeithiol ac yn deg.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid cymeradwyo'r adroddiad gan gynnwys yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol a'r eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Safonau.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr eitem a gyfeiriwyd, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

151 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CAC) -

Gwnaeth yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, amlinellu i'r Pwyllgor:

- Tarddiad y Prosiect Sero.
- Ymatebion yr adroddiad i'r adborth a wnaed gan y Pwyllgor hwn a phwyllgor craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.
- Sut mae Prosiect Sero yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y Cyngor a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Y Cynllun Her Newid Hinsawdd, a oedd yn cynnwys 18 her ar draws tri maes gwaith a nifer o gamau yr oedd eu hangen er mwyn cyrraedd y targed sero net i'r Cyngor.
- Roedd yr adroddiad ac Atodiad A yn manylu ar ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni yn erbyn ymrwymïadau yn y Cynllun Her Newid Hinsawdd ac i fwrw ymlaen â Phrosiect Sero.
- Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar y dangosyddion perfformiad a fabwysiadwyd o dan Brosiect Sero yn Atodiad B.
- Rhoddodd yr adroddiad ddiweddiariad i'r Aelodau ynghylch y cyllid a'r cronfeydd wrth gefn sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero a'r dull yr oedd y Bwrdd yn ei gymryd o ran dyrannu arian, yn ogystal â'r cysylltiadau a oedd yn cael eu gwneud i'r cyllid ffyniant cyffredin a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU.
- Cafodd yr adroddiad ei ddiweddarau hefyd ar y dull o reoli rhaglenni ac adrodd ar gynnydd ar gyfer Prosiect Sero.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwnaed y sylwadau a'r ymholiadau canlynol gan Aelodau'r Pwyllgor ac eraill.

Gofynnodd y Cynghorydd Franks am y cais am ymgynghorwyr fel rhan o'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd newydd, plannu coed, y cysylltedd gwych ar gyfer cysylltiadau trên yn y Fro a'r cronfeydd wrth gefn gwerth £1.9m nad oeddent wedi'u gwario ar 31 Mawrth 2023. O ran yr ymgynghorwyr seilwaith gwyrdd, byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio am y defnydd o gyngor allanol; er y byddai angen hyn oherwydd ystyriaethau ynghylch capasiti, annibyniaeth a sgiliau arbenigol er mwyn helpu i yrru a mapio i wella seilwaith gwyrdd. O ran plannu coed, byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r Strategaeth Coed gysylltiedig. Cynhaliwyd nifer o brosiectau plannu coed yn Cosmeston, Pencoedtre a Gwenfô. Yn yr un modd, o ran cysylltiadau trên, byddai rhagor o wybodaeth ar gael maes o law, gyda gwaith yn cael ei wneud fel rhan o'r Brifddinas-Ranbarth ar integreiddio, yn ogystal â'r gyfnewidfa newydd yn Nociâu'r Barri yn agor yn fuan. O ran cronfeydd wrth gefn, roedd y Cyngor wedi sefydlu'r cronfeydd wrth gefn hyn fel set ychwanegol o adnoddau y gallai'r sefydliad eu defnyddio ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero, ond nid oeddent yn cwmpasu'r graddau llawn o gyllid na buddsoddiad mewn cynlluniau o'r fath, gyda rhai prosiectau yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru (LIC) hefyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r broses newydd ar gyfer ceisiadau.

Cododd y Cynghorydd Carroll effaith newidiadau i ailgylchu ac a oedd unrhyw ddata ynghylch faint o wastraff ailgylchu/gwastraff nad yw'n cael ei ailgylchu a gasglwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ers cyflwyno newidiadau i wasanaethau ailgylchu, yn ogystal â phryderon am beidio â thorri ymylon ar ffordd penodol. Mewn ymateb, yn anecdotaidd, roedd Tîm Rheoli Gwastraff y Cyngor yn gweld gostyngiad yn swm yr ailgylchu halogedig ers i'r newidiadau gael eu gweithredu. Byddai ffigurau ynghylch faint o wastraff ailgylchu/gwastraff nad yw'n cael ei ailgylchu a gesglir yn cael eu ceisio a'u darparu i'r Pwyllgor. O ran ymylon, byddai gwybodaeth yn cael ei cheisio drwy'r Tîm Priffyrdd.

Roedd yr Is-gadeirydd yn teimlo, er mwyn helpu i arloesi sut mae Craffu yn ymgysylltu â phreswylwyr, y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i sut y gall y cyhoedd gymryd mwy o ran yn y broses Prosiect Sero a sut i gyflawni hyn yn well. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol cynnal sesiwn frifffio neu weithdy cyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, er mwyn cael y ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru fel rhan o ystyriaeth y Cyngor ar y ffordd orau o gyflawni ei dargedau datgarboneiddio. Mewn ymateb, byddai'r awgrym ar fwy o gyfranogiad y cyhoedd yn cael ei ystyried a byddai camau a diweddariadau pellach yn cael eu darparu ar sut y gellid cyflawni hyn (h.y., trwy fwy o ddefnydd o gyfranogiad ac ymarferion ymgynghori ar-lein gan y cyhoedd trwy'r Ganolfan Prosiect Sero ac ati). Hefyd, byddai'r gweithdy a awgrymwyd yn cael ei ystyried. O ran targedau ôl-troed carbon ar gyfer tai Cyngor, byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio drwy gydweithwyr Tai a Gwasanaethau Adeiladu.

Gwnaeth y Cynghorydd Haines' sylw ar weithio ystwyth, hybrid i staff y Cyngor ac a oedd 'difidend' lleihau carbon o hyn. Teimlai y byddai'r allbwn carbon yn syml yn cael ei roi ar staff yn eu cartrefi trwy eu defnydd o drydan a gwresogi yno, yn hytrach nag yn lleoliadau'r Cyngor, felly ni fyddai unrhyw ostyngiad carbon yn cael ei gyflawni'n ystyrion. Eglurwyd y byddai cyngor gan y Rheolwr Datgarboneiddio yn cael ei geisio ar sut y cafodd y data ei gasglu ar y maes hwn ac os gwneir lwfansau at ddefnydd carbon domestig neu mewn lleoliadau eraill nad ydynt yn rhan o'r Cyngor, yn ogystal â chael adborth LIC ar hyn. Er, nodwyd hefyd y gallai gweithio ystwyth/hybrid helpu i wrthbwysu'r defnydd cyffredinol o garbon oherwydd llai o gymudo i weithio, a theimlai'r Cadeirydd efallai fod hwn yn faes yr oedd angen ei ddadansoddi ymhellach.

O ran sylwadau'r Cynghorydd Wood ynglŷn â thargedau uchelgeisiol y Cyngor ar leihau carbon a'r angen i ganolbwyntio ar yr heriau, targedau ac amcanion hanfodol er mwyn cyflawni sero net ac ymgymryd â dull â ffocws i helpu i weithredu hyn, eglurwyd bod y Bwrdd wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y meysydd ffocws allweddol ar gyfer gweithredu Prosiect Sero yn cael eu blaenoriaethu megis cadwyni cyflenwi. Byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn iteriad nesaf yr adroddiad hwn, gan gynnwys mireinio statws COG, ac ati. Roedd hefyd yn bwysig i'r Cyngor fod yn arweinydd yn y gymuned i helpu i leihau allyriadau yn y Sir yn gyffredinol.

O ran sylwadau'r Cadeirydd ar ymgorffori egwyddorion economi gylchol yng ngweithgareddau a diwylliant y Cyngor i helpu i yrru Prosiect Sero ymhlith gweithwyr a'u hamcanion gwaith, eglurwyd y byddai hyn yn cyd-fynd ag arfarniadau staff, cydweithio ag Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol, Timau

No.

Cyfathrebu Mewnol a Hyrwyddwyr Lles yn ogystal â gwaith gwirfoddoli yn y gymuned leol, a allai oll helpu i ymgorffori egwyddorion o'r fath.

Gwnaeth yr Is-gadeirydd sylw ar argymhelliad Llywodraeth y DU i Awdurdodau Lleol ar fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer Prosiect Sero ac ar bwy oedd y cyfrifoldeb – llywodraeth leol, LIC, ac ati - i gyflawni ac ariannu datgarboneiddio yn y meysydd amrywiol hyn, yn ogystal â sicrhau bod y Cyngor a chyrrff perthnasol eraill yn parhau i fod yn atebol ac yn gyfrifol am gyflawni datgarboneiddio. Dywedodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau fod cyllid ar gyfer mesurau o'r fath yn gymysgedd o gyllid Llywodraeth Cymru a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun. Roedd hefyd yn bwysig ymgysylltu â chymunedau a grwpiau lleol i ddatblygu mesurau datgarboneiddio, yn ogystal â gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.

O ran ymholiad y Cynghorydd Frank am gyllid Prosiect Sero gan LIC yn y dyfodol, eglurodd yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gefnogol o arbedion ynni a chynlluniau carbon sero. O ran cynnydd cynlluniau o'r fath, byddai rhagor o fanylion yn cael eu ceisio a'u rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law.

Daeth y Cadeirydd â'r eitem i ben drwy amlinellu'r angen i glymu Prosiect Sero â meysydd eraill o waith y Cyngor, fel y gwelwyd yn ddiweddar gyda'r Strategaeth Gaffael newydd, ac i sicrhau bod gwerth cymdeithasol, ailddefnyddio, ail-bwrpasu, ailgylchu, ail-weithgynhyrchu yn cael eu hystyried ac i gael y llywodraethu angenrheidiol ar waith i helpu i yrru'r rhain ymlaen.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu:

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad ac yn Atodiad A mewn perthynas â'r heriau yng Nghynllun Her y Newid Hinsawdd.

(2) Y dylid nodi'r cyllid sydd ar gael yn y cronfeydd wrth gefn a'r trefniadau i gymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau yn y dyfodol.

(3) Y dylid nodi'r dangosyddion perfformiad yn Atodiad B yr adroddiad.

(4) Y dylid cyfeirio'r sylwadau canlynol o'r Pwyllgor i sylw'r Cabinet er ystyriaeth:

- Pwysigrwydd dadansoddi'r ffigurau ar gyfer faint o wastraff a ailgylchir o gymharu â gwastraff nad yw'n cael ei ailgylchu a gasglwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ers cyflwyno'r newidiadau i wasanaethau ailgylchu yn rhannau o'r Fro.
- Yr angen i edrych ar y arbedion carbon posibl (os o gwbl) os bydd staff y Cyngor yn gweithio o'u cartref yn rhan o drefniadau gwaith ystwyth a hybrid o gymharu â chymudo i eiddo Cyngor Bro Morgannwg a gweithio yno.

No.

- Pwysigrwydd blaenoriaethu neu ailflaenoriaethu heriau, targedau ac amcanion allweddol y Cyngor er mwyn cyrraedd sero net a chynnal ymagwedd â ffocws er mwyn helpu i weithredu hyn. Ochr yn ochr â hyn, roedd hi'n bwysig ymwreiddio'r blaenoriaethau hyn a'r ymddygiadau a'r diwylliant cysylltiedig er mwyn helpu i gefnogi'r ymagwedd hon o fewn y Cyngor.
- Y dylai'r Cyngor, ar y cyd â'r swyddogaeth Graffu, ystyried sut y gallant ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yr hyb ar-lein Prosiect Sero newydd a dulliau eraill o ymgysylltu er mwyn meithrin mwy o ymgysylltiad a chyfranogiad ymhlith trigolion Bro Morgannwg ym Mhrosiect Sero. Byddai hyn yn cynnwys adborth gan y cyhoedd ar sut i wella'r gwaith sy'n cael ei wneud yn gysylltiedig â'r prosiect, cyflawniad y prosiect, y dulliau a ddefnyddir i gyflawni hyn, yn ogystal â cheisiadau i'r swyddogaeth Graffu ystyried a chraffu ar agweddau allweddol y prosiect.
- Pa mor bwysig yw hi i'r Cyngor gydweithio â chymunedau lleol a grwpiau, a Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i gyrraedd sero net a chael y mecanweithiau ar waith i sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i fod yn atebol ac yn gyfrifol am gyrraedd y nod hwn.
- Yr angen i gysylltu Prosiect Sero ag agweddau eraill ar waith y Cyngor, fel y gwelwyd yn ddiweddar yn achos y Strategaeth Gaffael newydd, ac i sicrhau bod gwerth cymdeithasol, ailddefnyddio, ailbwrpasu, ailgylchu, ailweithgynhyrchu yn cael eu hystyried, a chael y trefniadau llywodraethu angenrheidiol er mwyn helpu i yrru'r rhain yn eu blaen.

(5) Y dylid argymhell i'r Cabinet bod yr adroddiad hwn yn cael ei rannu â'r holl Aelodau Etholedig, aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth o gynydd o ran cyflawni Cynllun Her Newid yr Hinsawdd.

(5) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid eraill ar y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

#### 152 DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (CYF) -

Cafodd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 8 Mehefin 2023 ei gyflwyno gan y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Amlinellodd yr adroddiad y gwaith sylweddol a wnaed gan nifer o swyddogion y Cyngor o ran profi dirywiad a meysydd cymorth cysylltiedig o amgylch y prosiect hwn ac ar y cyd â'r cyflenwr presennol.

No.

- Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am ymdrechion casglu data'r Cyngor fel rhan o'r ymarfer hwn, gan gysylltu ag Awdurdodau Lleol eraill, edrych ar yr hyn oedd ar gael yn y farchnad, siarad â chyflenwyr a defnyddio'r wybodaeth honno i helpu i lywio'r rhestr gofynion swyddogaethol (y cyfeirir ati yn atodiad yr adroddiad).
- Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sefyllfa bresennol y cyflenwr llwyfan hybrid presennol, Civico, a'r ffordd orau ymlaen wrth weithredu'r plattform hybrid ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgor, h.y. ymrwymo i asesiad perfformiad / cytundeb prawf cysyniad gyda chyflenwr amgen yn y tymor byr (hyd at 12 mis) gyda'r opsiwn i ymestyn yn ôl disgrisiwn y Cyngor fel y manylir yn yr Adroddiad. Byddai hyn hefyd yn ystyried goblygiadau ymarferol ac adnoddau, yn ogystal â gofynion cyfieithu Cymraeg.
- Yn y cyfamser, byddai'r Cyngor yn parhau â'i drefniadau presennol, a oedd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Roedd Adroddiad Rhan II cysylltiedig i ddilyn yn y cyfarfod hwn yn ymwneud â data masnachol sensitif a materion yn ymwneud â'r pwnc hwn.

Yn dilyn yr adroddiad, lleisiodd y Cynghorydd Carroll ei bryderon ynghylch Civico a'r materion technegol a'r materion eraill cysylltiedig, gyda'r system yn ymddangos i beidio â bod yn addas i'r diben, y 'torri contract' posibl o amgylch hyn a'r amserlenni hir dan sylw, yn ogystal â chyfeirio at ddewisiadau amgen mwy 'hyfyw' ar gyfer llwyfannau cyfarfod hybrid sy'n cael eu defnyddio gan Awdurdodau Lleol eraill, fel Cyngor Caerdydd. Eglurwyd y byddai'n rhaid mynd i'r afael â darnau sylweddol o ymholiadau a sylwadau'r Cynghorydd pan gyflwynwyd adroddiad Rhan II gan eu bod yn syrthio i feysydd o sensitifrwydd masnachol. O ran y cyfeiriad at y plattform hybrid a ddefnyddir gan Gyngor Caerdydd, roedd yr Awdurdod hwn mewn gwirionedd wedi newid ei ddarparwr hybrid yn ddiweddar. O ran yr Argymhelliad sy'n ymwneud â chyhoeddi Hysbysiad VEAT (Hysbysiad Tryloywder Ex ante Gwirfoddol) pennwyd bod Cytundeb Fframwaith ar waith, a fyddai'n negyddu'r angen am yr Hysbysiad VEAT ac yn cynorthwyo i gyflymu'r broses. Roedd siart Gantt bellach wedi'i darparu i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a oedd yn nodi amserlenni, gan gynnwys 'lansiad meddal' o system newydd, fel rhan o ddull cam wrth gam, 'prawf-o-gysyniad' yn y dyfodol agos, gyda'r Aelodau'n cael eu diweddarau ar hyn maes o law.

Roedd y Cynghorydd Haines yn siomedig nad oedd amserlen wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, yn ogystal â manylion am y pwynt pan na fyddai'r system bresennol bellach yn cael ei hystyried yn addas i'r diben. Ystyriodd y dylid darparu adroddiad mwy cynhwysfawr hefyd i'r Pwyllgor hwn ac o bosibl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan gynnwys 'gwersi' a ddysgwyd fel rhan o'r broses hon, a adleiswyd hefyd gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Franks. Cytunwyd y byddai adroddiad o'r fath yn cael ei lunio ac y byddai trafodaethau pellach ar hyn yn cael eu cynnal yn Rhan II.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor:

**ARGYMHELLWYD** – Nodi'r adroddiad ar ddiweddarau'r plattform cyfarfodydd hybrid.



Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr eitem a gyfeiriwyd, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

153 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

154 DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD HYBRID (CYF)  
(GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 8 Mehefin 2023.

Trafodwyd yr adroddiad cyfeirio ac atodol gan y Pwyllgor a chodwyd nifer o faterion a chwestiynau. Cytunwyd y dylid anfon argymhelliad yn ôl i'r Cabinet ynghylch y buddsoddiad arfaethedig, fel y manylwyd yn yr adroddiad, i osod cyswllt band eang 500Mbps penodol yn Ystafell Sain / Gweledol Siambr y Cyngor ac ailystyried a yw'n angenrheidiol.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiad 'myfyrdodau' er mwyn cael trosolwg o'r gwaith a wnaed ar gyfer y Llwyfan Cyfarfod Hybrid, gan amlygu agweddau allweddol ar y prosiect hwn.

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid gofyn i'r Cabinet ystyried, gan gyfeirio i Adran TGCh y Cyngor, a oes angen y buddsoddiad a gynigir, fel y manylir arno yn yr adroddiad, i osod cyswllt band eang 500Mbps pwrpasol yn Ystafell Sain / Weledol Siambr y Cyngor (fel bo modd gwahanu'r systemau hybrid a ffrydio yn llwyr oddi wrth rwydwaith mewnol y Cyngor),

(2) Y dylid llunio adroddiad myfyrdodau cynhwysfawr i'w ystyried gan y Pwyllgor, yn amlinellu'r llinell amser ar gyfer y Prosiect Platfform Cyfarfodydd Hybrid (gan gynnwys Civico), yr agweddau ariannol a chyfreithiol, y llwyddiannau a'r heriau, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y Prosiect.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn i'r Cabinet ystyried a oes angen y buddsoddiad a gynigir yn rhan o Brosiect y Platfform Cyfarfodydd Hybrid.

No.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor gael trosolwg a dealltwriaeth ehangach o'r Prosiect, ac i sicrhau bod myfyrdod cynhwysfawr yn cael ei ddarparu i'r Cyngor i'w gynorthwyo i gyflawni ymrwymadau tebyg yn y dyfodol.